**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Suzy Davies AC
Assembly Commissioner

24 Mai 2017

Annwyl Suzy,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 28 Mawrth ynghylch argymhelliad 3 yn ein hadroddiad, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2017-18, o ran sut y mae Comisiwn y Cynullid yn defnyddio'r tanwariant mewn perthynas ag arian a dynnwyd i ariannu Penderfyniad y Bwrdd Taliadau. Trafododd y Pwyllgor Cyllid y llythyr ar 17 Mai 2017.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu am rai o'r manylion yn eich ymateb, yn enwedig bod y Comisiwn yn ymddangos i fod yn dibynnu ar y tanwariant disgwyliedig i ariannu buddsoddiad, gan gynyddu'r gofynion ar y Comisiwn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu y dyrannwyd yr arian hwn i ariannu penderfyniadau'r Bwrdd Taliadau, ac bod y ffaith na chafodd ei hysbysu am y gwariant hwn tan ar ôl i'r buddsoddiad ddigwydd yn atal gwaith craffu clir a thryloywder. Gan gydnabod bod angen i'r Comisiwn fod yn annibynnol o ran ymdopi â newidiadau i'r gyllideb mewn ymateb i ofynion yn ystod y flwyddyn, mae'r symiau hyn yn sylweddol ac yn ymwneud â phrosiect na chafodd ei nodi fel baich mawr ar adnoddau yn nogfen cyllideb ddrafft y Comisiwn.

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd chi a'r Prif Weithredwr newydd i gyfarfod y Pwyllgor i drafod y mater hwn. Rwy'n credu bod ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor mewn cysylltiad â'ch swyddogion ynglŷn â hyn.

Cyn i chi ddod i'r cyfarfod, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Pwyllgor gael diweddariad ynghylch adnewyddu'r llawr daear. Roedd y Pwyllgor yn synnu o weld cost sylweddol y gwaith adnewyddu hwn, ac nid oedd yn teimlo bod y llythyr yn

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

rhoi dadansoddiad digonol o'r costau hyn er mwyn ystyried a yw hyn yn cynnig gwerth am arian o ran cyfanswm cost y prosiect. Hoffai'r Pwyllgor gael y canlynol:

- dadansoddiad manwl o sut yn union y defnyddiwyd yr £1.185m a nodir yn eich llythyr i dalu am y prosiect hwn;

- pa gostau pellach sydd wedi codi, neu a fydd yn codi, yn sgil gwaith adnewyddu'r llawr daear, a faint o hyn sydd eisoes wedi'i ddyrannu i'r prosiect hwn o gyllideb 2017-18.

Hefyd, hoffai'r Pwyllgor gael manylion ychwanegol ynghylch y tanwariant a ragwelir ar hyn o bryd ar gyfer 2017-18, a sut y disgwylir defnyddio hyn.

Er gwybodaeth, ac er mwyn i'r Pwyllgor ddeall y broses o gyllidebu ar gyfer lwfansau Aelodau yn y Comisiwn ac mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill, rydym wedi ysgrifennu at Archwilydd Cyffredinol Cymru i gael eglurhad o arferion da ynghylch cyflwyno cyllidebau a dyrannu tanwariant.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth ychwanegol yr ydym wedi gofyn amdani erbyn 16 Mehefin.

Yn gywir

Simon Thomas AC

Cadeirydd

*Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.*

*We welcome correspondence in Welsh or English.*